

## W116.01

## Asesu a Dadansoddi Pridd

Mae iechyd a ffrwythlondeb pridd yn allweddol i amaethu'n llwyddiannus. Dibynna rheolaeth pridd da ar asesu priddoedd a defnyddio'r dadansoddiadau yn effeithlon. Bydd monitro yn gadael i chi wybod sut mae arferion amaethu yn effeithio ar y pridd. Yn y daflen wybodaeth hon amlinellir sut i wirio iechyd ac ansawdd pridd. Mae rhesymau ariannol, cynhyrchiol ac amgylcheddol da dros wneud hynny!

### Terminoleg pridd

Gweadedd pridd - caiff ei ddiffinio gan y gyfran gymharol o dywod, llaid a chlai. I gael y canrannau cywir, mae angen dadansoddiad mecanyddol, ond gellir eu mesur drwy edrych ar y pridd a'i deimlo.


Rhwbiwch peth pridd llaith rhwng eich bys a bawd:

Tywod yn teimlo'n rutiog wrth ei siapio'n bêl ac yn dod oddi wrth ei gilydd yn hawdd.

Llaid yn teimlo'n llyfn, sidanaidd neu'n flodiog.

Clai yn ludiog pan yn wlyb a gellir ei lathru wrth ei rwbio.

Pridd Lôm pridd canolradd o ran gweadedd. Gellir hefyd addasu nodweddion gweadedd penodol drwy gyfuniad o'r uchod a drwy gynnwys graean a cherrig.



**Ni fedrwch newid gweadedd pridd OND mae gwybod beth ydyw yn helpu gyda phenderfyniadau rheoli**

**Adeiledd pridd** – maint a datblygiad agregau pridd - mae gwreiddiau yn tyfu drwyddynt a dŵr ac aer yn symud.

Adeiledd pridd da – agregau hydraiddd wedi eu ffurfio'n dda ag ochrau crwn y gellir eu torri rhwng y bysedd pan yn llaith.

Adeiledd pridd gwael – wedi ei gywasgu ac yn edrych yn dalpiog - yn anoddach i'w dorri'n ddarnau.

Yn aml, bydd gan briddoedd sydd â llawer o ddeunydd organig adeiledd da oherwydd yr agregau mwy a chryfach mae'n helpu eu creu.

Mae adeiledd yn berthnasol i'r gweadedd; Bydd priddoedd tywodlyd a mawnaidd yn dueddol o fod ag adeiledd gwan gyda'r agregau yn torri i lawr yn ronynnau unigol yn hawdd.

Mae gan briddoedd clai agregau cryfach a mwy amlwg. Bydd priddoedd cleiog trwm yn crebachu ac yn chwyddo fel mae'r cynnwys dŵr yn newid yn ystod y flwyddyn.

Er eu bod yn gysylltiedig â gweadedd, gall arferion ffermio wella adeiledd pridd drwy wella'r lefel o ddeunydd organig ac osgoi cywasgu. Dengys ymchwil y gall gwreiddiau meillion wella adeiledd pridd.

Proffil y pridd yw'r haenau o bridd mewn pwl pridd (twll a gloddiwyd yn y ddaear).

Mae'n rhoi gwybodaeth am:

- Ddyfnder y pridd uchaf – yn fasach mewn tir glas parhaol na phriddoedd sydd wedi eu haredig,
- Draeniant yr haenau o edrych ar eu lliw; tywyll - pridd uchaf o ddeunydd organig lliw rhwd – draeniant gwael llwyd – manau clai glas gan fod dŵr yn cronni dros dro neu'n barhaol o ddyfnder y gwraidd; gwreiddiau dwfn yn dangos priddoedd sy'n draenio'n hawdd.

## Yr hyn fedrwch chi ei wneud

### Edrychwch ar ôl eich pridd

Dylid osgoi ei gywasgu, ei sathru a'i ledaenu. Bydd hyn yn cyfyngu ar dyfiant gwreiddiau, lleihau pryfed genwair ac yn ymateb yn wael i wrtaith a thail fferm. Bydd llai o laswellt yn tyfu a bydd y pridd yn debygol o fod yn ddirlawn neu'n sych.

### Profi Priddoedd

Gall dadansoddiad o'r pridd roi ciplun o'r maetholion sydd ynddo a gellir seilio penderfyniadau cynyddau ar hyn ac ychwanegu atynt yn ystod y tymor byr i ganolig.

### *Mae profi'r tir yn adnabod:*

- caeau sy'n isel o ran maetholion ble fydd ychwanegu atynt yn cynyddu cyfanswm y cynhyrchiant, gwella tyfiant tymor cynnar a hwyr, cynyddu nifer y rhygwellt a meillion, lleihau'r gweiriau 'chwyn' a chwyn dail llydan a chynyddu faint o'r maetholion gwrtaith sy'n mynd i'r pridd.

- caeau gyda lefelau maetholion uchel; felly gellir lleihau'r hyn a ychwanegir, gosod cyfansoddiad priodol, targedu tail a slyri i'r fan lle mae ei angen, lleihau cost a gwarchod yr amgylchedd.

Mae profion pridd safonol yn asesu pH (calch), ffosffad (P), potash (K) a magnesiwm (Mg).

Dangosir y canlyniadau fel indecs (neu rannau/mg) fel canllaw os ydynt yn addas i wair a meillion. Oni bai y tybir fod problem benodol fel diffyg elfen hybrin, gwenwynder pridd neu lefelau deunydd organig, bydd prawf safonol yn ddigonol. Mae ffermwyr organig angen 'cynhwysiad clai' os yw'r K yn isel.

Mae hi'n fwy cost effeithiol a dibynadwy i ddadansoddi maetholion eraill, gan gynnwys sylffwr, mewn samplau porfa.

## Sut i samlo i gael dadansoddiad

### Samplwch yn rheolaidd

- bob 4 neu 5 mlynedd i gaeau silwair ble mae maetholion yn cael eu tynnu gyda phob toriad
- bob 7- 8 mlynedd ar dir pori
- bob 2-3 blynedd ar bridd tywodlyd iawn neu mewn ardaloedd ble fo glawiad uchel
- ar yr un adeg o'r flwyddyn neu'r un cam yn y cylchdro
- o leiaf 2 fis ar ôl y chwaliad tail, slyri neu wrtaith olaf,
- caeau sy'n tanberfformio ble fo cynnwys y rhygwellt yn lleihau
- caeau a gynlluniwyd i'w ail-hadu neu hau uwchben
- caeau sy'n derbyn lefel uchel o dail/slyri.

Samplwch i 7.5cm gyda digreiddiwr neu drywel i laswelltir (hyd at 15cm i dir âr)

- cymrwch sampl cynrychioliadol drwy gerdded ar draws y cae mewn siâp 'W'.
- cymrwch tua 25 sampl a'u crynhoi.
- osgowch adwyon, manau bwydo ac ati.
- rhowch is sampl o hwn mewn bag polythen, digon i lenwi mwg te, ac yna anfonwch hwn i gael ei ddadansoddi.

Os oes gan gae agweddu gwahanol iawn/mathau gwahanol o bridd cymrwch sampl wedi ei grynhoi o bob ardal.

### Cwmnïau sy'n cynnig dadansoddi pridd:

Eurofins (01902 693190),

Cotswold Analytical Services (01989 780511), Elm Farm Research Centre - OAS (01488 657600), Glenside Fertility Farming Systems (01786 816655), Independent Soil Services (01553 636600).

## RHAGOR O WYBODAETH

Cyfeiriad Cyswllt: IGER, Canolfan Datblygu Tir Glas, Plas Gogerddan, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3EB

Rhif ffôn: 01970 823026/823058

Gwefan: [www.iger.bbsrc.ac.uk](http://www.iger.bbsrc.ac.uk)

Taflen Wybodaeth 101.1 Adnabod a Datrys Problemau.